ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

Y ddarpariaeth Adnoddau Dynol (AD) yn ERW **15.3.15**

Diben y diweddariad

Disgrifio sut y bydd gwasanaethau AD yn ERW yn gweithredu ac yn gweithio'n effeithiol fel ffrwd waith i gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Busnes.

Cyflwyniad

Roedd y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol yn cynnig y dylai'r pedwar consortiwm i gyd sefydlu tîm AD bach i gefnogi penaethiaid a llywodraethwyr i fynd i'r afael â materion galluogrwydd.

Roedd hwn yn gysyniad diffygiol a datblygwyd strategaeth amgen a oedd yn ystyried tair egwyddor sylfaenol allweddol o ran rheoli pobl:

- **Yn gyntaf** – manteision ymagwedd gyfannol at reoli pobl mewn ysgolion, gan gynnwys ystyried cyfrifoldebau llywodraethwyr am y staff a benodir ac a reolir ganddynt, ac nid canolbwyntio'n unig ar yr unigolion hynny y nodwyd eu bod yn tanberfformio

- **Yn ail** – y gwerth ychwanegol i'w sicrhau drwy feithrin ymhellach y perthnasoedd sydd eisoes yn bodoli ym mhob awdurdod lleol – h.y. llywodraethwyr, Aelodau Etholedig, Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth, staff AD, penaethiaid a chymdeithasau athrawon – yn hytrach na sefydlu tîm AD bach ar ei ben ei hun y tu allan i'r gweithgareddau prif ffrwd pob dydd o reoli pobl mewn ysgolion

- **Yn drydydd** – y tegwch a'r effeithiolrwydd a geir drwy weithredu prosesau rheoli perfformiad mewn modd ataliol yn hytrach na modd ymatebol, er mwyn sicrhau bod yr unigolion hynny y nodir bod gofyn cymorth ychwanegol arnynt yn cael gwybod beth a ddisgwylir ganddynt ar y cyfle cyntaf, yn cael adborth cywir a pharhaus am eu lefel o berfformiad ac yn cael lefel briodol o gefnogaeth – cyn gynted ag y nodir unrhyw danberfformiad – yn hytrach na gadael i athro neu athrawes neu arweinydd ysgol ddod yn rhan o broses alluogrwydd y gellid bod wedi'i hosgoi drwy ymyriad cynnar ac effeithiol blaenorol

Mae'r trydydd pwynt hwn yn holl bwysig oherwydd **ni ddylai'r un athro nac athrawes nac arweinydd ysgol gael ei synnu byth** pan fydd proses alluogrwydd yn cychwyn.

Mae gan ERW felly 4 prif thema i'r gwaith wrth inni fwrw ymlaen â blaenoriaethau'r Cynllun Busnes ar gyfer 2015-18.

1. Ymgysylltu ag Undebau Llafur i **gytuno'n flynyddol ar Bolisi Tâl ar gyfer chwe Awdurdod Lleol ERW.** Bydd y gwaith hwn yn cael ei arwain a'i gyflawni gan grŵp AD ERW, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r chwe ALl ac sy'n cael ei gadeirio gan Ceri Davies, Cyfarwyddwr AD Cyngor Sir Penfro. Aled Evans, Cyfarwyddwr Addysg Castell-nedd Port Talbot fydd yr arweinydd strategol ar ran y chwe chyfarwyddwr. Bydd hwn yn cynnwys cyfarfod ag Undebau Llafur yn rheolaidd.

2. **Y Rhaglen Gwobrwyo Rhagoriaeth** yw'r cyfrwng y bydd ERW yn ei ddefnyddio i gyflwyno hawl sylfaenol pob athro i broses werthuso a rheoli perfformiad o ansawdd uchel, gan arwain at ddysgu proffesiynol parhaus yn rhan o'r Fargen Newydd. Bydd y gwaith hwn yn cael ei arwain gan Graham Jones, Cyfarwyddwr AD ERW. Yn benodol, bydd y gwaith yn canolbwyntio ar gefnogi ysgolion (ysgolion peilot i ddechrau), rhoi cymorth i ysgolion lle mae hwn yn faes i'w wella (wedi'i frocera yn rhan o'r Ysgol Gymorth), hyfforddi llywodraethwyr. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys datblygu canllawiau arfer gorau i ysgolion a hyfforddiant, polisïau cyffredin a ffurflenni ar gyfer gwerthuso. Mae hwn yn amlwg yn faes perfformiad amrywiol ledled y rhanbarth. Y nod yw achosi gwelliant lle mae ei angen, drwy ddefnyddio arferion cyffredin.

3. Mae gweithio gydag **Undebau Llafur yn rhanddeiliaid allweddol** yn allweddol i strategaeth gyfathrebu ERW. Er mwyn galluogi Undebau Llafur i fod yn ymwybodol o gynlluniau a strategaethau ERW ar gyfer gwella ysgolion a'u cynnwys lle mae angen, bydd trafodaeth ar wahân yn cael ei threfnu'n rheolaidd i roi gwybod i randdeiliaid am y manylion. Bydd Betsan O'Connor, y Rheolwr Gyfarwyddwr, yn arwain y gwaith hwn. Dylid ymdrin â materion lefel ysgol benodol ar lefel Hwb. Rhagwelir bod yr ymgysylltu hwn yn rhywbeth ar wahân i'r cyfarfod ag Undebau Llafur a nodwyd ym mhwynt 1 ond yn rhywbeth y gellir ei ychwanegu at ddechrau neu ddiwedd y cyfarfod hwnnw.

4. **Gweithio gyda Llywodraeth Cymru** i ddatblygu mentrau i gryfhau'r seilwaith ar gyfer gwelliant yn gyson â chyflog ac amodau athrawon, polisïau AD a datblygu'r trefniadau newydd sy'n gysylltiedig â'r Fargen Newydd. Bydd y gwaith hwn yn cael ei arwain gan Aled Evans.

Argymhelliad: newid pwyslais y gwaith yn unol â'r newidiadau i'r safonau a gynigir yn rhan o'r Fargen Newydd ac ymateb i'r angen i feithrin perthynas â'r Undebau Llafur.

Atodiad 1

Cydnabyddir yn helaeth mai ansawdd yr addysgu yw'r un ffactor pwysicaf wrth helpu dysgwyr i gyflawni. Rhaid felly i ysgolion sicrhau bod y rheini sy'n addysgu, sy'n cefnogi'r addysgu neu sy'n arwain yr addysgu yn meddu ar y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i ddarparu addysgu a dysgu o ansawdd uchel drwy ddysgu proffesiynol gydol gyrfa sy'n effeithiol, yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig â blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys y blaenoriaethau a nodir yn Cymwys am Oes, yr hawl a'r disgwyliad yn y Fargen Newydd i athrawon a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu adroddiad Donaldson ar y cwricwlwm newydd - Successful Futures.

Mae'r rhaglen Codi Safonau Gwobrwyo Rhagoriaeth yn rhan bwysig o'r pecyn gwaith ehangach sy'n cael ei ddatblygu gan ERW, awdurdodau lleol ac ysgolion i wella ansawdd yr addysgu, y dysgu a'r arwain yn holl ysgolion ERW.

Bydd y rhaglen Codi Safonau Gwobrwyo Rhagoriaeth yn cynorthwyo pob ysgol i sefydlu polisi a phroses rheoli perfformiad ysgol sydd:

(a) yn egluro pa sgiliau a pherfformiad a ddisgwylir gan bob athro ac athrawes ac arweinydd ysgol gan y corff llywodraethu

(b) yn rhoi adborth am sgiliau a pherfformiad pob unigolyn

(c) yn nodi'r cymorth datblygiad proffesiynol sy'n ofynnol er mwyn gwella'r addysgu a/neu'r dysgu

Mae Llywodraeth Cymru bellach yn ailwampio'r safonau cenedlaethol a hawl athrawon i ddysgu proffesiynol. Y bwriad yw gwahodd athrawon ac arweinwyr ysgol i lunio ar y cyd yr hyn sy'n cael ei ystyried yn "dda" yn ystod gyrfa athro neu athrawes ac arweinydd ysgol.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r rhaglen Codi Safonau Gwobrwyo Rhagoriaeth yn bwriadu gorfodi "ateb" haearnaidd cyffredinol ar bob ysgol.

Bydd ERW yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru wrth iddi weithio gydag ysgolion i sefydlu mecanweithiau newydd a/neu well ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon ac arweinwyr ysgol.